# COFNOD O BENDERFYNIAD CYFARFOD O'R CYNGOR A GYNHALIWYD HYBRID YN SIAMBR Y CYNGOR, SWYDDFEYDD DINESIG, STRYD YR ANGEL, PEN-Y-BONT AR OGWR, CF31 4WB / O BELL DRWY TIMAU MICROSOFT. AR DYDD MERCHER, 11 MAWRTH 2026 16:00

## Presennol

Y Cynghorydd HJ David – Cadeirydd

| | | | |
|---|---|---|---|
| A R Berrow | F D Bletsoe | S J Bletsoe | JPD Blundell |
| E L P Caparros | O Clatworthy | RJ Collins | C Davies |
| S Easterbrook | M J Evans | N Farr | J Gebbie |
| RM Granville | S J Griffiths | GC Haines | D M Hughes |
| M R John | M Jones | W J Kendall | J Llewellyn-Hopkins |
| J E Pratt | JC Spanswick | JH Tildesley MBE | HM Williams |
| E D Winstanley | T Wood | | |

Presennol – O Bell

| | | | |
|---|---|---|---|
| S Aspey | H T Bennett | C L C Davies | P Davies |
| P Ford | W R Goode | H Griffiths | M L Hughes |
| RM James | P W Jenkins | M Lewis | RL Penhale-Thomas |
| R J Smith | I M Spiller | T Thomas | A Ulberini-Williams |
| G Walter | AJ Williams | I Williams | MJ Williams |
| R Williams | | | |

## Ymddiheuriadau am Absenoldeb

N Clarke

## Datganiadau o Ddiddordeb

## Swyddogion:

-

## 259. Ymddiheuriadau am absenoldeb

| | |
|---|---|
| Y penderfyniad a wnaed | Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorydd Norah Clarke. |
| Dyddiad gwneud y penderfyniad | 11 Mawrth 2026 |

## 260. Datganiadau o fuddiant

| | |
|---|---|
| Y penderfyniad a wnaed | Dywedodd y Prif Swyddog - Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoleiddio, AD a Pholisi Corfforaethol y byddai gan bob swyddog yn y cyfarfod fuddiant rhagfarnus yn Eitem 6. Gadawodd pob swyddog y cyfarfod tra roedd yr eitem hon yn cael ei hystyried, ac eithrio'r Rheolwr Grŵp - Adnoddau Dynol a Datblygu Sefydliadol, oedd yn bresennol i ateb unrhyw gwestiynau technegol. |
| Dyddiad gwneud y penderfyniad | 11 Mawrth 2026 |

## 261. Cymeradwyaeth Cofnodion

| | |
|---|---|
| Y penderfyniad a wnaed | PENDERFYNWYD: That the minutes of the 14/02/2026 be approved as a true and accurate record. |
| Dyddiad gwneud y penderfyniad | 11 Mawrth 2026 |

## 262. I dderbyn cyhoeddiadau oddi wrth:

| | |
|---|---|
| Y penderfyniad a wnaed | Derbyniwyd cyhoeddiadau gan y Prif Weithredwr a’r Aelodau canlynol o’r Cabinet (Ni wnaed/nid oedd angen penderfyniadau):- |

| | |
|---|---|
| | • Y Maer<br>• Y Prif Weithredwr |
| Dyddiad gwneud y penderfyniad | 11 Mawrth 2026 |

## 263. Derbyn cyhoeddiadau gan yr Arweinydd

| | |
|---|---|
| Y penderfyniad a wnaed | Derbyniwyd cyhoeddiadau gan yr Arweinydd (Ni wnaed/nid oedd angen penderfyniadau). |
| Dyddiad gwneud y penderfyniad | 11 Mawrth 2026 |

## 264. Datganiad Polisi Cyflog - 2026/2027

| | |
|---|---|
| Y penderfyniad a wnaed | Diben yr adroddiad hwn, a gyflwynwyd gan Aelod y Cabinet dros Adnoddau, oedd gofyn am gymeradwyaeth y Cyngor i Ddatganiad y Polisi Cyflogau am 2026/2027. Roedd hyn mewn ymateb i ofynion deddfwriaethol ac er mwyn bod yn agored ac atebol yn y ffordd yr oedd y Cyngor yn gwobrwyo’i staff. Mae'n ofynnol paratoi Datganiad Polisi Cyflogau newydd ar gyfer pob blwyddyn ariannol newydd, ac mae'n rhoi manylion y broses o wneud penderfyniadau ar gyfer cyflogau'r holl grwpiau perthnasol gan gynnwys graddfa gyflog gyda 16 gradd wahanol.<br><br>Nododd yr Aelodau fod y graddau wedi cael eu cywasgu o ganlyniad i gael gwared ar Bwynt 2 yn y golofn gyflog a dywedent y dylai’r Aelodau fod yn ystyriol nes y câi adolygiad posibl o’r strwythur cyflog a graddio ei gynnal yn gyffredinol ac hefyd ar gyfer staff gofal cymdeithasol.<br><br>PENDERFYNWYD: Bod y Cyngor yn cymeradwyo Datganiad Polisi Cyflogau 2026/2027 oedd ynghlwm fel Atodiad 1. |
| Dyddiad gwneud y penderfyniad | 11 Mawrth 2026 |

## 265. Trafodion Partïon Cysylltiedig 2025-26 Ar gyfer Datganiad Cyfrifon

| | |
|---|---|
| Y penderfyniad a wnaed | Diben yr adroddiad hwn, a gyflwynwyd gan Aelod y Cabinet dros Gyllid a Pherfformiad, oedd hysbysu'r |

| | |
|---|---|
| | Cyngor am y gofyniad i Aelodau ddatgan yn ffurfiol unrhyw drafodion cysylltiedig â phlaid ar gyfer blwyddyn ariannol 2025-26 drwy gwblhau'r datganiad oedd ynghlwm yn Atodiad A, hyd yn oed os oedd yn ffurflen wag, a bod rhaid cwblhau hyn ddim cynharach na 31 Mawrth 2026 a'i ddychwelyd erbyn dydd Llun, 13 Ebrill 2026.<br><br>PENDERFYNWYD: Bod y Cyngor yn nodi'r gofyniad i Aelodau:<br>• ddatgan yn ffurfiol unrhyw drafodion cysylltiedig â phlaid ar gyfer blwyddyn ariannol 2025-26;<br>• cwblhau a dyddio'r ffurflen dreth ddim cynharach na 31 Mawrth 2026;<br>• cyflwyno'r ffurflen erbyn dydd Llun, 13 Ebrill 2026. |
| Dyddiad gwneud y penderfyniad | 11 Mawrth 2026 |

## 266. Adroddiad Blynyddol ar Gydnabyddiaeth Ariannol Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru (DBCC) 2026/27

| | |
|---|---|
| Y penderfyniad a wnaed | Diben yr adroddiad hwn, a gyflwynwyd gan y Prif Swyddog - Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoleiddio, AD a Pholisi Corfforaethol, oedd cyflwyno Adroddiad Blynyddol Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru (DBCC) i'r Cyngor mewn perthynas â lefel ac ystod y tâl yr oedd yn rhaid i'r Awdurdod ei ddarparu ar gyfer ei aelodau etholedig ar gyfer blwyddyn ddinesig 2026-27. Gofynnwyd i'r Cyngor gymeradwyo a mabwysiadu penderfyniadau'r Panel, cymeradwyo'r swyddi fyddai'n derbyn cyflog uwch/dinesig a chytuno ar y Cynllun Tâl diwygiedig fyddai'n dod i rym ar 1 Ebrill 2026.<br><br>PENDERFYNWYD: Bod y Cyngor yn nodi'r Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2026-27 ac yn cymeradwyo:<br><br>a) Mabwysiadu Penderfyniadau perthnasol y Comisiwn oedd wedi eu cynnwys yn yr Adroddiad Blynyddol (wedi'i atodi fel Atodiad A);<br>b) Y swyddi hynny (a ddangoswyd yn Rhestr ddiwygiedig Taliadau Aelodau yn Atodlen 1 o Atodiad B) fyddai'n derbyn cyflog uwch / dinesig;<br>c) Rhestr ddiwygiedig Taliadau Aelodau (Atodiad B) ac iddi ddod i rym o 1 Ebrill 2026;<br>d) Bod Rhestr Taliadau'r Aelodau i gael ei diweddaru ag unrhyw newidiadau a wneid wedi hynny gan y Cyngor yng Nghyfarfod Blynyddol y Cyngor neu yn ystod blwyddyn ddinesig 2026-2027. |
| Dyddiad gwneud y penderfyniad | 11 Mawrth 2026 |

## 267. Adroddiad Gwybodaeth i'w Nodi

| | |
|---|---|
| Y penderfyniad a wnaed | PENDERFYNWYD: Bod y Cyngor hwnnw wedi cydnabod cyhoeddi'r adroddiad y cyfeirir ato ym mharagraff 3.1 uchod. |
| Dyddiad gwneud y penderfyniad | 11 Mawrth 2026 |

## 268. Derbyn y Cwestiynau canlynol gan:

| | |
|---|---|
| Y penderfyniad a wnaed | Y Cynghorydd Jon-Paul Blundell at yr Aelod Cabinet dros Newid Hinsawdd a'r Amgylchedd (ymateb a ddosbarthwyd i'r Aelodau yn flaenorol).<br><br>Gofynnwyd cwestiwn atodol gan y Cynghorydd Blundell a atebwyd yn y cyfarfod.<br><br>Y Cynghorydd Timothy Wood at yr Aelod Cabinet dros Newid Hinsawdd a'r Amgylchedd (ymateb a ddosbarthwyd i'r Aelodau yn flaenorol).<br><br>Gofynnwyd cwestiwn atodol gan y Cynghorydd Wood a atebwyd yn y cyfarfod.<br><br>Y Cynghorydd Timothy Thomas at yr Arweinydd (ymateb a ddosbarthwyd i'r Aelodau yn flaenorol).<br><br>Gofynnwyd cwestiwn atodol gan y Cynghorydd Thomas a atebwyd yn y cyfarfod. |
| Dyddiad gwneud y penderfyniad | 11 Mawrth 2026 |

## 269. Materion Brys

| | |
|---|---|
| Y penderfyniad a wnaed | Dim. |
| Dyddiad gwneud y penderfyniad | 11 Mawrth 2026 |

I arsylwi dadl bellach a gynhaliwyd ar yr eitemau uchod, cliciwch ar y ddolen hon

Terfynwyd y cyfarfod yn 16:45